



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Gwybodaeth gyhoeddus ar gael yn y Gymraeg

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn darparu adnoddau Cymraeg a Saesneg y gallwch eu rhannu â'ch cleifion, y cyhoedd a gweithwyr ieuchyd proffesiynol eraill.

Taflenni

Mae'r taflenni Cymraeg ar gael i'w lawrlwytho am ddim o wefan [y Cyngor Osteopathig Cyffredinol](http://www.cyngor-osteopathig-cyffredinol.org.uk).


Beth i'w ddisgwyl gan eich osteopath




Mae'r daflen hon ar gyfer cleifion sy'n ystyried mynd at osteopath am y tro cyntaf. Mae'r wybodaeth yn ateb y cwestiynau a gawn ni gan gleifion a'r cyhoedd sy'n chwilio am sicrwydd ynglŷn â beth i'w ddisgwyl yn ystod yr apwyntiad cyntaf a rhai dilynol gydag osteopath.

Safonau Gofal Osteopathig

Nod y daflen yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol eraill am y safonau uchel a ddisgwylir gan osteopath wedi'i gofrestru yn y DU – o ran hyfforddiant, sgiliau proffesiynol ac ymddygiad.



Pwy sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol?




Mae rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol y DU wedi cydweithio i greu taflen iechyd y cyhoedd, *Pwy sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol?*, i helpu cleifion i ddeall sut mae practisau iechyd prif ffrwd yn cael eu rheoleiddio.

Canllaw i dystion

Pan fydd un o'n pwyllgorau addas i ymarfer yn cynnal gwrandawriad i ystyried cwyn am osteopath, mae tystiolaeth gan dystion yn hollbwysig er mwyn helpu i wneud penderfyniad. Gall unrhyw un, gan gynnwys osteopathiaid, gael eu galw'n dystion mewn gwrandawriad.

Er mwyn helpu dystion i wybod beth i'w ddisgwyl cyn, yn ystod ac ar ôl gwrandawriad, rydym wedi paratoi [taflen wybodaeth i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan](#).



Hyrwyddo'ch Cofrestriad

Mae'n bwysig bod cleifion yn ymwybodol o'ch statws fel gweithiwr iechyd proffesiynol wedi'i reoleiddio ac yn gwybod sut i wirio'ch cofrestriad gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Rydym wedi creu Nodau Cofrestru a phosteri'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol i'ch helpu i godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd.

Nodau 'Rwyf wedi cofrestru' a 'Rydym wedi cofrestru'

Mae nodau 'Rwyf wedi cofrestru' a 'Rydym wedi cofrestru' yn nodau cofrestredig y Gymdeithas Osteopathig Cyffredinol, ac maent yn cynnwys telerau defnyddio penodol. Mae'n rhaid i chi wneud cais am Nod, a chytuno â'r telerau defnyddio, drwy fynd i'r adran ['Promoting registration'](#) yn yr **o zone**.





Gallwch chi wneud cais am Nod 'Rwyf wedi cofrestru' personol, sy'n cynnwys eich rhif cofrestru unigryw gyda'r Gymdeithas Osteopathig Cyffredinol. Mae'r Nod yn rhoi sicrwydd i gleifion, y cyhoedd ac eraill (er enghraifft, comisiynwyr gwasanaeth iechyd ac yswirwyr iechyd preifat) eu bod yn gallu gwirio'ch cofrestriad yn hawdd ar Gofrestr y Gymdeithas.



Efallai y byddai'n ddefnyddiol i bractisau sy'n defnyddio'r un wefan a deunyddiau ysgrifennu ddefnyddio'r un Nod Cofrestru cyffredinol hwn.

Poster 'Rwyf wedi cofrestru' a 'Rydym wedi cofrestru'



Mae poster gwybodaeth cyhoeddus y Gymdeithas sy'n hyrwyddo statws osteopathiaid fel gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig ac sy'n pwysleisio manteision hyn i gleifion, ar gael i'w harddangos yn eich clinig, ystafelloedd aros a llefydd cyhoeddus addas eraill. Mae dau fath o'r poster ar gael: y naill ar gyfer osteopath unigol a'r llall i bractisau grŵp. Gallwch lawrlwytho'r poster o [the o zone](#).

Gwybodaeth i'r cyhoedd ar wefan y Gymdeithas Osteopathig Cyffredinol

Er gwybodaeth i'ch cleifion, mae gwybodaeth bwysig ar gael yn y Gymraeg yn [adran Gymraeg](#) gwefan gyhoeddus y Gymdeithas Osteopathig Cyffredinol.